# Newyddlen Tîm Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Sir y Fflint

Rhifyn y Gwanwyn 2026



**Croeso i newyddlen Gwanwyn 2026 Tîm y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant, Cyfalaf a Phartneriaethau.**

Eleni, byddwn yn parhau i rannu ein digwyddiadau hyfforddi, gwybodaeth ynghylch y Grant Cyfalaf Bach a phob diweddariad arall i gefnogi eich lleoliad.

Mae'r rhifyn hwn o'n newyddlen yn dathlu thema Gymreig, gan adlewyrchu un o flaenoriaethau allweddol AGC: cryfhau'r defnydd o'r Gymraeg mewn lleoliadau gofal plant. Drwy gydol y flwyddyn, rydym wrth ein bodd yn cynnig cyfleoedd hyfforddi Cymraeg newydd i'ch helpu i feithrin hyder a gwreiddio'r iaith yn eich ymarfer bob dydd. Mae'r swyddog Clebran hefyd ar gael i weithio'n uniongyrchol gyda'ch lleoliad, gan ddarparu cefnogaeth ac arweiniad penodedig.

Yn ogystal, fe welwch wybodaeth am sut i ymuno ag Addewid Cymru - cam gwerthfawr sydd nid yn unig yn dangos eich ymrwymiad i ddiwylliant Cymru a'r Gymraeg, ond sydd hefyd yn cyfrannu'n gadarnhaol at ganlyniadau arolygu.

# Dathlu'r Iaith a'r Diwylliant Cymraeg yn eich Lleoliad Gofal Plant

## Mae'r iaith a'r diwylliant Cymraeg yn rhan annatod o hunaniaeth plant sy'n cael eu magu yng Nghymru.

Fel gweithwyr gofal plant proffesiynol, mae gennym gyfrifoldeb i sicrhau bod lleoliadau Sir y Fflint yn adlewyrchu ac yn hyrwyddo'r dreftadaeth hon. Nid yn unig y mae gwneud hynny'n cefnogi blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer dwyieithrwydd ond hefyd yn cyfoethogi datblygiad personol, cymdeithasol ac addysgol plant.

### Pam bod y Gymraeg yn Bwysig

- Mae strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru yn nodi'r weledigaeth o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae lleoliadau gofal plant yn chwarae rhan hanfodol wrth gyflawni'r targed hwn drwy ymgorffori'r Gymraeg yn naturiol mewn arferion dyddiol.
- Mae dod i gysylltiad â'r iaith Gymraeg o oedran ifanc yn cefnogi ac yn gwella hyblygrwydd gwybyddol, sgiliau datrys problemau a chyfathrebu.
- Mae defnyddio'r iaith Gymraeg yn helpu plant i deimlo eu bod wedi'u gwreiddio yn eu cymuned ac yn cryfhau hunaniaeth ddiwylliannol - gan feithrin balchder a hyder.

### Pam bod Diwylliant Cymru yn Bwysig

- Mae dathlu traddodiadau, gwyliau a llên gwerin Cymru yn sicrhau bod plant yn cael eu magu gyda dealltwriaeth o'u treftadaeth.
- Mae diwylliant Cymru yn hyrwyddo gwerthoedd cymuned, parch ac undod. Mae ymgorffori'r gwerthoedd hyn mewn ymarfer yn cefnogi amgylcheddau cynhwysol a meithringar.
- Cymryd rhan mewn hyfforddiant i feithrin hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg a deall arferion diwylliannol.

Nid yw ymgorffori'r iaith a'r diwylliant Cymraeg yn ddewis ychwanegol - mae'n gyfrifoldeb proffesiynol sy'n cyfoethogi addysg plant ac yn cefnogi blaenoriaethau cenedlaethol. Drwy fodelu agweddau cadarnhaol ac integreiddio'r Gymraeg yn ystyrlon i ymarfer bob dydd, mae ymarferwyr yn helpu plant i ddatblygu sgiliau dwyieithog, ymwybyddiaeth ddiwylliannol ac ymdeimlad cryf o hunaniaeth.



# Ydi'ch gwasanaeth chi'n hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru?



**GALLWCH** newid y datganiad ar eich adroddiad arolygu gan AGC:

**O** – 'Nid yw'r darparwr yn bodloni anghenion pobl o safbwynt y Gymraeg a diwylliant Cymru ac mae angen gwella hynny'.

**I** – 'Mae'r gwasanaeth yn gweithio at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' yn Gymraeg ac yn bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog, neu'n dangos cryn ymdrech i annog defnyddio'r Gymraeg a hyrwyddo diwylliant Cymru'.

**Cliciwch ar y ddolen isod i gael gwybod mwy am y Cynnig Rhagweithiol:**
Pecyn Gwybodaeth y Cynnig Rhagweithiol

Mae gwasanaeth Datblygu Gofal Plant Sir y Fflint a'r sefydliad sy'n eich cynrychioli'n awyddus i'ch cynorthwyo drwy'r broses. Cysylltwch â ni drwy e-bost - ccdtraining@flintshire.gov.uk os oes arnoch angen unrhyw gymorth neu gyngor.

## Swyddog Clebran



Helo, Amy ydw i.

Dw i newydd ddechrau fy swydd fel Swyddog Clebran yn Sir y Fflint. Nod Cynllun Clebran ydy cefnogi darpariaethau cyfrwng Saesneg i ddefnyddio mwy o'r iaith Gymraeg. Rydyn ni yn gobeithio codi hyder a dealltwriaeth y staff, a mynd â'r iaith Gymraeg i'r darpariaethau fel eu bod yn gwneud defnydd ohoni o ddydd i ddydd, yn ogystal ag adlewyrchu'r diwylliant Cymraeg. Mae 'na rannau gwahanol i fy swydd; Dw i'n cynnal gweithdai bob hanner tymor ar lein. Mae'n agored i unrhyw ddarpariaethau i ymuno, ac rydyn ni'n canolbwyntio ar eirfa a chaneuon o gwmpas thema benodol.

Dw i hefyd yn darparu cefnogaeth wyneb ar wyneb i ddarpariaethau sy wedi ymuno â'r cynllun yn barod, a dw i'n edrych ymlaen at deithio o gwmpas y sir yn y flwyddyn newydd yn cynnig cefnogaeth i ddarpariaethau gwahanol.

Dw i ar gael am gefnogaeth dros e-bost i bob darpariaeth hefyd. Dyma fy nghyfeiriad e-bost: amy.douthwaite@meithrin.cymru.

Dw i'n edrych ymlaen at weithio efo eich staff a phlant anhygoel yn y flwyddyn newydd!

## "Ni allwch orfodi eich plentyn i siarad iaith. Fodd bynnag, gallwch chi osod y llwyfan fel y byddan nhw eisiau ei siarad"

**Bilingual Edge**

## Dyma rai dolenni defnyddiol i gefnogi taith eich lleoliad i y mgorffori'r Gymraeg -

| | |
|---|---|
| Camau | Cyrsiau ac adnoddau Cymraeg i helpu staff i feithrin hyder a defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol yn eu gwaith bob dydd gyda phlant. |
| Cam wrth Gam | Cymwysterau gofal plant Lefel 3 a Lefel 5 ar gyfer staff mewn lleoliadau Mudiad Meithrin, Meithrinfeydd Dydd preifat cyfrwng Cymraeg, ac ysgolion cyfrwng Cymraeg. |
| Yr Addewid Cymraeg | Mae'r Addewid Cymraeg yn ffordd i leoliadau Gofal Plant a Chwarae gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg a dangos eu gwaith tuag at y Cynnig Gweithredol. |
| Clebran | Cymorth gyda'r Gymraeg i grwpiau chwarae a meithrinfeydd cyfrwng Saesneg nad ydynt yn aelodau o Mudiad Meithrin. |
| Helo Blod | Mae Helo Blod yn wasanaeth cyfieithu Cymraeg a gwasanaeth cyngor cyflym a chyfeillgar i'ch cynorthwyo i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn eich busnes, elusen neu grŵp cymunedol. Ac mae'n rhad ac am ddim i'w ddefnyddio. |
| Croesi'r Bont | Dull trochi'r Gymraeg a ddefnyddir i gyflwyno'r iaith i blant ifanc sy'n mynychu Cylchoedd Meithrin |


Adnoddau'r Gymraeg ar gyfer y blynyddoedd cynnar a gofal plant -
Gofal Cymdeithasol Cymru - Yma fe welwch ddolenni i adnoddau sy'n gysylltiedig â'r Gymraeg

## Cystadleuaeth ar Facebook – Llyfrau Cymraeg

I ddathlu bod grŵp Facebook Datblygu Gofal Plant Sir y Fflint wedi cyrraedd dros 300 o aelodau, fe wnaethom gynnal cystadleuaeth llyfrau Cymraeg yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau i Country House Childcare, yr enillydd lwcus a gafodd ddetholiad hyfryd o lyfrau Cymraeg i gefnogi datblygiad iaith a hyrwyddo diwylliant Cymru yn eu lleoliad.

*"Roedden ni wrth ein bodd pan enillon ni'r llyfrau Cymraeg ar gyfer y lleoliad gan y bydd hyn yn ein helpu i weithio tuag at ein nod o gyflwyno mwy o Gymraeg ledled y feithrinfa a chyflawni'r cynnig gweithredol, diolch yn fawr iawn".*




Os nad ydych chi a'ch staff eisoes wedi ymuno â'n grŵp Facebook, rydym yn eich annog i wneud hynny. Dyma'r ffordd orau o gael y wybodaeth ddiweddaraf am gyfleoedd hyfforddi, adnoddau, digwyddiadau a phopeth sy'n ymwneud â gofal plant.

### Awgrym Da

### Cynnwys y Gymraeg fel Rhan o Ymarferion Bob Dydd yn eich Lleoliad

- Defnydd dyddiol o eiriau ac ymadroddion Cymraeg yn ystod cyfnodau chwarae, prydau bwyd a'r trefnau dyddiol.
- Canu caneuon Cymraeg a darllen llyfrau.
- Dathlu gwyliau Cymraeg gyda chrefftau, bwyd, a chyfranogiad teuluol.
- Annog plant i archwilio hanes lleol, cerddoriaeth a chelf.
- Cefnogi eich gilydd - rhannu ymadroddion, apiau ac adnoddau defnyddiol gyda chydweithwyr ac annog pawb i roi cynnig ar un gair/ymadrodd Cymraeg newydd bob wythnos.

**Dathlu ymdrech - nid perffeithrwydd. Canmol unrhyw ymgais i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae meithrin hyder yn allweddol i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg dros amser.**

# Digwyddiad Rhwydweithio yn y Clwb ar ôl Ysgol

**Roedd ein digwyddiad Rhwydweithio Ar ôl Ysgol diweddar, a hwyluswyd gan y tîm Datblygu Gofal Plant, yn gyfle gwych i ymarferwyr ddod at ei gilydd a rhannu arfer da.**



Wedi'i chynnal yng Nghanolfan Blynyddoedd Cynnar Westwood, Bwcle, canolbwyntiodd y sesiwn ar yr iaith a'r diwylliant Cymraeg - blaenoriaeth allweddol i bob lleoliad. Drwy gydol y digwyddiad, fe wnaethon ni archwilio syniadau ymarferol a rhannu amrywiaeth o adnoddau a gynlluniwyd i ysbrydoli a chefnogi ymarferwyr i ymgorffori'r Gymraeg yn naturiol ac yn hyderus yn eu darpariaeth bob dydd.

Roedd Elliw o Clybiau Plant yno hefyd. Esboniodd i ymarferwyr y gall meddwl dechrau ar daith o weithio tuag at y Cynnig Gweithredol fod yn frawychus, felly mae Clybiau Plant wedi datblygu taith Addewid Cymru yn benodol ar gyfer lleoliadau gofal plant a chwarae.

Nod yr addewid hwn (gyda chefnogaeth ymarferol Swyddogion Datblygu Busnes Gofal Plant Clybiau Plant Cymru) yw cefnogi lleoliadau o'r cam cyntaf (Efydd) hyd at y cam olaf (Aur). Drwy gydol y daith hon, byddwch yn gallu dangos bod eich lleoliad yn gweithio tuag at y Cynnig Gweithredol.



Mynegodd sawl lleoliad ddiddordeb drwy ymrwymo i'r Addewid. Byddant yn gweithio tuag at elfennau ac yn casglu tystiolaeth wrth iddynt fynd ymlaen. Nid yn unig y byddan nhw'n rhannu diwylliant a hunaniaeth arbennig Cymru gyda phlant a theuluoedd eu lleoliad, ond hefyd yn dangos i Arolygiaeth Gofal Cymru sut maen nhw'n gweithio tuag at y Cynnig Gweithredol.

Roedd lleoliadau'n gallu mynd ag adnoddau gyda nhw i gefnogi eu taith gyda'r Gymraeg.





# Bore Nadoligaidd gyda Gwarchodwyr Plant Sir y Fflint

**Cynhaliwyd cyfarfod Nadoligaidd ymysg gwarchodwyr plant Sir y Fflint yn ystod mis Rhagfyr.**

Gyda dros 10 o warchodwyr plant ymroddedig yn ymuno â ni, roedd yr ystafell yn llawn cynhesrwydd, chwerthin a hwyl gan grŵp o bobl sy'n frwd am ofalu am y plant a'r teuluoedd maen nhw'n eu cefnogi.

Doedd dim stop ar y sgwrsio wrth i'r gwarchodwyr plant rannu straeon, syniadau, a digonedd o hwyl yr ŵyl. Roedd yn gyfle hyfryd i gysylltu ag wynebau cyfarwydd ac aelodau newydd o'n cymuned sy'n tyfu.





Bydd ein sesiwn Grŵp Gwarchodwyr Plant nesaf yn digwydd ar

**Ddydd Iau 12 Mawrth rhwng 9:30am ac 11am.**

**Canolfan Deulu Aston, Larch Avenue, Shotton, CH5 1NF**

Roedd y bore yn gyfle nid yn unig i ddathlu'r tymor ond hefyd i gydnabod y gwaith anhygoel y mae pob gwarchodwr plant yn ei wneud drwy gydol y flwyddyn. Mae'r cysylltiadau hyn yn ein hatgoffa pa mor werthfawr yw dod at ein gilydd, ymlacio, a chefnogi ein gilydd.

Rydym wrth ein bodd yn croesawu Amy, y Swyddog Clebran i'n grŵp Gwarchodwyr Plant nesaf. Bydd hi'n rhannu syniadau ymarferol ac ysbrydoliaeth ar sut i ymgorffori'r iaith a diwylliant Cymru yn eich lleoliad.


Mae hwn yn gyfle gwych i gael mewnwelediadau newydd a chryfhau eich ymarfer. Byddem wrth ein bodd yn eich gweld chi yno ar gyfer y sesiwn hon na ddylid ei cholli.

*Helo, dw i eisiau diolch i Fiona ac Emma am y bore yma. Am grŵp hyfryd, roedd y plant yn mwynhau'r teganau a'r gweithgareddau yn fawr iawn, ac roeddwn i'n mwynhau sgwrsio â chi'ch dau a'r gwarchodwyr plant eraill. Fe ddown ni eto, yn bendant. Gobeithio y cewch chi i gyd Nadolig hyfryd. Diolch.*

## Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir y Fflint

Family Information Service Flintshire
Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd Sir y Fflint

Oeddech chi'n gwybod y gellir rhannu eich gwybodaeth ar www.gwybodaethgofalplant.cymru drwy actifadu eich cyfrif Dewis?




Diweddarwyd y wefan hon yn ddiweddar i'w gwneud hi'n haws i rieni ddod o hyd i ofal plant addas i ddiwallu eu hanghenion. Mae'r wybodaeth a ddarparwch ar eich cyfrif Dewis hefyd yn bwydo i'r system hon - felly 2 ffordd am ddim o hysbysebu eich busnes.

Am gymorth ac arweiniad ar sut i ail-actifadu eich cyfrif ar Dewis, mae croeso i chi gysylltu â Thîm Gwybodaeth i Deuluoedd ggidsyff@siryfflint.gov.uk

## Dechrau'n Deg

Os ydych chi'n ystyried dod yn ddarparwr Dechrau'n Deg, e-bostiwch flyingstartproviders@flintshire.gov.uk gyda'ch ymholiad.

Ewch i Ehangu Gofal Plant Dechrau'n Deg i weld rhestr gyfredol o bob ardal sy'n rhan o ehangiad 2 oed Dechrau'n Deg.

## Cynnig Gofal Plant Cymru

### Gwybodaeth gyffredinol am geisiadau

Mae ceisiadau i rieni wneud cais am Gynnig. Gofal Plant Cymru a chyllid Cyfle Cynnar ar gyfer mynediad Ebrill 2026 yn agor ar 28 Ionawr 2026.



## Grantiau Cyfalaf Bach – Gofynion Monitro

**Hoffai tîm y Grantiau Cyfalaf Bach rannu nodyn atgoffa i'r lleoliadau hynny sydd wedi cael cyllid yn 2025-2026.**

Er mwyn sicrhau bod eich prosiect yn cydymffurfio'n llawn a sicrhau eich bod yn parhau i fod yn gymwys ar gyfer cyfleoedd ariannu yn y dyfodol, mae'n hanfodol eich bod yn cyflwyno'r wybodaeth ofynnol ar gyfer monitro. Mae hyn yn helpu ein tîm i olrhain cynnydd, dathlu cyflawniadau, a dangos effaith y grant hwn ar draws Sir y Fflint.

Os ydych chi wedi cael grant Cyfalaf Bach, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n darparu:

- Eich ffurflen fonitro wedi'i chwblhau
- Pob derbynneb sy'n gysylltiedig â gwariant eich prosiect
- Ffotograffau o eitemau, offer a phrosiectau

Mae'r dogfennau hyn yn caniatáu i'r tîm wirio gwariant, tynnu sylw at straeon llwyddiant a chefnogi'r gwaith o gyflwyno'r rhaglen yn barhaus.

Anfonwch yr holl ddogfennau i:
smallgrants@flintshire.gov.uk

# Llinell Gymorth Therapi Iaith a Lleferydd – Cefnogaeth ar yr Adeg Iawn

## Oes gennych chi bryderon am blentyn ynglŷn â lleferydd, iaith neu sgiliau cyfathrebu?

### Mae'r Llinell Gymorth Therapi Iaith a Lleferydd ar gael i helpu.

Bydd Therapydd Iaith a Lleferydd cymwys ar ben arall y ffôn i roi cyngor a chyfarwyddyd ynglŷn ag unrhyw bryderon.

**Oriau'r Llinell Gymorth:**

- **Dydd Mawrth: 9:00-10:00am**
- **Dydd Iau: 3:30-4:30pm**

Call: **03000 848 179**

Mae'r llinell gymorth ar agor bob wythnos, gan gynnwys gwyliau ysgol, ac felly bydd cefnogaeth bob amser ar gael pan fydd ei hangen arnoch.

Darperir y gwasanaeth i'r **HOLL** ddarparwyr gofal plant yn Sir y Fflint yn ogystal â rhieni a gofalwyr.



# Y wybodaeth ddiweddaraf gan Bartneriaid CWLWM

Early Years Wales Blynyddoedd Cynnar Cymru

## Blynyddoedd Cynnar

**Offeryn Myfyrio Addewid Cymraeg: Asesu Eich Ymarfer**
Mae'r Offeryn Myfyrio Addewid Cymraeg yn offeryn syml sydd wedi'i gynllunio i helpu lleoliadau blynyddoedd cynnar i asesu eu harfer iaith Gymraeg. Mae'n darparu ffordd strwythuredig o adolygu pa mor dda mae'r Gymraeg wedi'i hymgorffori yn y trefnau dyddiol, chwarae, rhyngweithio, ac amgylchedd, yn ogystal ag i asesu datblygiad sgiliau staff.

Trwy gwblhau'r offeryn, gall eich lleoliad:

- Myfyrio'n onest ar eu harfer presennol gan ddefnyddio graddfa ddatblygiadol:
  Nid Wedi → Yn Datblygu → Wedi'i Sefydlu → Wedi'i Gosod yn Llawn.
- Adnabod meysydd i'w datblygu a chynllunio camau gweithredu penodol i gryfhau darpariaeth iaith Gymraeg.
- Cefnogi dysgu staff, o ryngweithiadau dyddiol i hyfforddiant ffurfiol.
- Paratoi i gyflwyno tystiolaeth ar gyfer Addewid Cymraeg, gan helpu timau i feddwl am eu harfer cyn iddo gael ei ddogfennu'n ffurfiol.
- Hyrwyddo hyfforddiant ac adnoddau ar-lein wedi'u targedu, yn seiliedig ar batrymau cyffredin ar draws lleoliadau.

Mae'r Offeryn Adlewyrchu yn gyflym, hawdd ei gwblhau ac yn dangos golwg glir, gan helpu eich tîm i gymryd y cam cyntaf tuag at gynnwys ymarfer iaith Gymraeg o safon uchel. Gall hefyd gweithio fel tystiolaeth ar gyfer Addewid Cymraeg, gan gefnogi lleoliadau i fodloni'r meini prawf "Asesu eich Ymarfer" a throi myfyrdod yn gweithredu i welliant parhaus.

Ewch i'r Offeryn Myfyrio yma.

---

## Mudiad Meithrin

mudiad meithrin

**NEWYDD! Rhaglen Academi, Ionawr - Mawrth 2026**

Cymerwch olwg ar raglen hyfforddiant newydd Academi. O gyrsiau newydd i adnoddau defnyddiol, dewch o hyd i'r holl fanylion yn y rhifyn hwn.

Mae'r arlwy y tro hwn yn cynnwys:

- Sut i gydweithio â theuluoedd a chymunedau yn effeithiol
- Sut mae creadigrwydd yn cael ei gyflwyno i blant bach
- Rhannu profiadau Rheolwr Cylch Meithrin - archwilio ffabrigau gyda'r plant
- Sgyrsiau byr i ddysgu am y gefnogaeth i ddatblygu sgiliau Cymraeg
- Sut mae creu amgylchedd gwaith positif lle gall staff deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi
- Arweiniad ar sut i reoli straen yn effeithiol a hyrwyddo lles yn y gweithle
- Cynadleddau arbennig! ... a llawer mwy!

Cymerwch gip ar y **rhaglen** a sicrhewch eich lle - bydd nifer o'r cyrsiau hyn yn llenwi'n gyflym!


## Clybiau Plant

**Gweithdy Cymraeg Achlysurol Sir Fflint**

- Ffyrdd ymarferol o oresgyn rhwystrau defnyddio'r Gymraeg mewn lleoliad gofal plant
- Gwybodaeth am y Cynnig Gweithredol
- Cyflwyniad i adnoddau Chwarae Cymraeg
- Syniadau ymarferol ar gyfer defnyddio Cymraeg o ddydd i ddydd
- Strategaethau sy'n magu hyder
- Ystod o syniadau ac adnoddau i gefnogi arfer
- Gwybodaeth am gyrsiau iaith Cymraeg rhad ac am ddim gan Camau

**Canolfan Deulu Westwood, Stryd Tabernacl, Bwcle, Sir y Fflint, CH7 2JT**
**10/03/2026 18:30 - 19:30**

## Coram PACEY Cymru




Pecyn gwybodaeth diwylliant Cymru

Mae Pecyn gwybodaeth diwylliant Cymru yn adnodd i helpu lleoliadau i ymestyn cyfleoedd i dyfu gwybodaeth a dealltwriaeth plant o'u hamgylchedd, i'w helpu i archwilio eu hunaniaeth a gadael i'r plant ennill ymdeimlad o berthyn i'r wlad y maent yn byw ynddi.

Gall lleoliadau gefnogi plant o ran eu dealltwriaeth o ddiwylliant Cymru sy'n bwysig mewn perthynas â lles a datblygiad plant sy'n byw yng Nghymru.

Mae hwn yn adnodd sy'n cysylltu â chwricwlwm Cymru, y Cynnig Gweithredol a hyrwyddo datblygiad yr iaith Gymraeg yng Nghymru.

Darllenwch fwy yma:
Datblygu'r Gymraeg

## Angen Cyngor neu Gymorth?



**Os hoffech chi gael arweiniad ar gryfhau'r defnydd o'r Gymraeg yn eich lleoliad, mae ein tîm yma i helpu.**

P'un a ydych chi'n chwilio am syniadau ymarferol, adnoddau, neu gymorth wedi'i deilwra, mae croeso i chi gysylltu.

Cysylltwch â ni unrhyw bryd am gyngor, cyfleoedd hyfforddi, neu sgwrs am sut y gallwn ni gefnogi eich taith iaith Gymraeg:

ccdtraining@flintshire.gov.uk

## Lleoliadau Gofal Plant – Cadwch Eich Llygaid Ar Agor!

**Rydym yn gyffrous i lansio ein Basgedi Adnoddau newydd sbon 'Y Byd O'm Cwmpas'!**

Mae gennym 7 basged thema ar gael i leoliadau eu benthyca ar sail benthyciad tymhorol - yn llawn adnoddau deniadol o ansawdd uchel i gefnogi plant i archwilio'r byd o'u cwmpas.

Os hoffech chi gael y cyfle i gynnal un yn eich lleoliad, cadwch lygad am ein ffurflen Mynegi Diddordeb, y bydd angen ei chwblhau i gael ei hystyried.

**Allwn ni ddim aros i rannu'r rhain gyda chi!**



**Wrth i ni groesawu'r disgleirdeb a'r adnewyddiad a ddaw gyda'r gwanwyn, hoffem ddiolch i chi am yr ymroddiad, y creadigrwydd a'r gofal a ddangoswch bob dydd.**

Mae eich egni a'ch ymrwymiad yn sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau posibl.

